# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>23 IONAWR 2017<br>10.00 o'r gloch** | **MONDAY<br>23 JANUARY 2017<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**Annibynnol / Independent**

R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Lafur/Labour Party**

J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

**Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru /Welsh Liberal Democrat (Heb Ymuno / Unaffiliated)**

Aled Morris Jones

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr, 2016.

**4** **COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2016.

**5** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 17 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL AR OSTWNG YR OEDRAN MYNEDIAD AR GYFER YSGOL BRYNSIENCYN** (Tudalennau 33 - 68)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**7** **MODERNEIDDIO YSGOLION – CAERGYBI A LLANFAETHLU** (Tudalennau 69 - 72)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**8** **TREFNIADAU ARIANNU AR GYFER YSGOLION NEWYDD** (Tudalennau 73 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Kenneth Hughes, Aled Morris Jones, H. Eifion Jones, Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Cyfarwyddwr Prosiect (Prosiectau Mawr) (AR)<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai (DR)<br>Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai (LR)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Ann Griffith, John Griffith, Trefor Lloyd Hughes, Llinos Medi Huws R. Meirion Jones, Alun Mummery, Nicola Roberts. |

1

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Richard Dew ddiddordeb personol a diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 9 ar y rhaglen.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD**

Nid oedd unrhyw faterion brys i adrodd arnynt.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2016 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2016.**

DRAFT

## 4 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i’w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o Ionawr i Awst, 2017.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod eitem 26 (Strategaeth Ddigartrefedd Dros Dro) y trefnwyd i’w hystyried gan gyfarfod o’r Pwyllgor Gwaith a gynhelir ar 20 Mawrth, 2017 yn newydd i'r Flaenraglen Waith. Mae eitem 18 (Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2015/16) ac eitem 31 (Adroddiad Blynyddol ar y Safonau Iaith Gymraeg) wedi eu cynnwys fel eitemau ychwanegol ar y Rhaglen Waith ac fe’u dirprwyir i'r Aelodau Portffolio perthnasol i’w penderfynu; rhaglennwyd y bydd y penderfyniadau hynny’n cael eu gwneud ym Mawrth a Mehefin, 2017 yn y drefn honno.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr i Awst, 2017 fel y’i cyflwynwyd.**

## 5 DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2017/18

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ymgorffori Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2016. Dywedodd yr Aelod Portffolio nad oedd y Strategaeth RhT ar gyfer 2017/18 wedi newid rhyw lawer o gymharu â’r un a oedd mewn grym yn ystod 2016/17 a’i bod yn argymell dull tebyg o weithredu sy'n debygol o sicrhau’r gwerth gorau yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a hynny’n seiliedig ar ddefnyddio balansau arian mewnol i osgoi benthyca allanol newydd oherwydd bod disgwyl i gyfraddau buddsoddi tymor canol barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo cynnwys, a’r rhagdybiaethau a’r cynigion ynddo, y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (yn cynnwys y Dangosyddion Pwyllog a rhai Rheoli Trysorlys ) ar gyfer 2017/18 fel yn Atodiad A i’r adroddiad.**
- **Anfon y Datganiad i'r Cyngor Sir heb sylwadau pellach.**

## 6 ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS 2016/17

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys adroddiad yr adolygiad canol blwyddyn o’r gweithgarwch rheoli trysorlys ar gyfer 2016/17.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod yr adroddiad ar yr adolygiad canol blwyddyn wedi cael sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2016. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y rhagolygon yn awgrymu y bydd cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel ac nad yw’r sefyllfa wedi newid llawer o gymharu â chwe mis yn ôl. Er bod ystyriaeth wedi ei rhoi i'r posibilrwydd o aildrefnu dyledion, diystyriwyd cymryd y fath gamau am y tro oherwydd bod y gost o ad-dalu dyledion yn fwy na fyddai’r Cyngor yn ei arbed mewn llog oherwydd y premiymau ad-dalu cynnar a osodir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus .

DRAFT

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2016/17 a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Sir heb sylw pellach.**

## 7 GAREJIS TAI CYNGOR

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Tai ynghylch trin stoc garejys y Cyngor

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Gwasanaeth Tai yn rheoli stoc o 764 o garejis. Cynhaliwyd adolygiad o'r garejis yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon ac roedd arolwg manwl a wnaed o'r holl garejis yr ystyriwyd eu bod mewn cyflwr gweddol neu wael wedi dangos bod cyflwr y garejis concrit parod yn gyffredinol wedi dirywio'n sylweddol o gymharu â'r rhai cerrig traddodiadol ac felly argymhellir eu dymchwel. Yn ogystal, argymhellir dymchwel nifer o'r garejis mwy traddodiadol hefyd oherwydd gwendidau strwythurol neu am eu bod wedi dadfeilio'n sylweddol.

Er ei fod yn rhagweld y bydd y tir a ryddheir yn sgil dymchwel y garejis yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i wella'r ddarpariaeth ar gyfer parcio, llwybrau a llecynnau mwynderau ar stadau'r Cyngor, dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Technegol y Gwasanaethau Tai y rhoddir sylw gofalus, fel rhan o'r broses ddymchwel, i gyfleoedd posib i wneud defnydd amgen o'r tir megis ar gyfer datblygiadau tai fforddiadwy. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi cadarnhau bod y cynllun a gyflwynwyd yn fforddiadwy.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y bwriad i ailwampio stoc garejis y Cyngor gan nodi bod gan y cynllun botensial ar gyfer datblygu tai fforddiadwy. Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd y bydd yr holl anghenion buddsoddi sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yn cael eu cyllido o'r Cyfrif Refeniw Tai. Ceisiodd y Pwyllgor Gwaith sicrwydd yr ymgynghorir â thrigolion lleol yn ogystal â'r Aelodau Lleol perthnasol ynghylch y gwaith y bwriedir ei wneud i ddymchwel 33 o flociau ac y cymerir i ystyriaeth yr atborth a geir pan wneir penderfyniadau ynghylch y defnydd o'r tir.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol yr ymgynghorir gyda phreswylwyr ac Aelodau Lleol gyda golwg ar gytuno ar gynlluniau ar gyfer sut i ddefnyddio'r tir a ryddheir. Yn yr un modd, dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol y ceisir barn tenantiaid ac Aelodau Lleol ac y bydd y cynllun hefyd yn ceisio cydbwyso'r angen am ddarpariaeth ar gyfer parcio a mwynderau yn erbyn yr angen am dai fforddiadwy.

**Penderfynwyd**

- **Cymeradwyo dymchwel 33 bloc o garejis a'r gwariant sy'n gysylltiedig.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth Tai i ystyried cael gwared â garejis pan ddyfernir mai hwnnw yw'r peth mwyaf addas i'w wneud.**

## 8 SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn amlinellu'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â datblygu safleoedd sipsiwn a theithwyr

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn egluro'r gwaith a wnaed ers i'r Pwyllgor Gwaith roi cymeradwyaeth i fwrw ymlaen i gynnal archwiliadau rhagarweiniol o safleoedd ym Mhenhesgyn a Star yn ei gyfarfodydd ar 31 Mai a 25 Gorffennaf, 2016 yn y drefn honno. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa o ran caffael tir ac yn gofyn am gymeradwyaeth mewn egwyddor i ddefnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol mewn amgylchiadau lle na ellir caffael trwy drafodaeth y tir

DRAFT

sydd raid wrtho i ddatblygu safle i sipsiwn a theithwyr. Amlygodd yr Aelod Portffolio bod raid i'r Cyngor nodi safleoedd addas ar gyfer lletya sipsiwn a theithwyr yn unol â'r gyfraith.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai fod Capita wedi eu penodi fel ymgynghorwyr ar gyfer sicrhau'r safleoedd i sipsiwn a theithwyr; mae'r gwasanaeth ymgynghorol a ddarperir yn cynnwys amrywiaeth o ymrwymiadau fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.4 yr adroddiad, gan gynnwys paratoi dyluniad y safle a cheisiadau cynllunio. Nodwyd cerrig milltir allweddol ar gyfer y prosiect a bydd y prosiect yn cael ei rannu'n bum prif gam fel ym mharagraff 2.5 o'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd ar y cyd gan Ynys Môn a Gwynedd yn 2016 ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2016.

Gan ei fod wedi gofyn i gael siarad ar y mater, cyfeiriodd y Cynghorydd R. Meirion Jones at y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf, 2016 i gynnal ymchwiliad pellach o Safle 1 (stribedyn o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star) i gadarnhau ei addasrwydd ac i asesu ymhellach unrhyw risgiau diogelwch neu dechnegol ar y safle. Tynnodd sylw at y ffaith nad oedd y fanyleb rheoli prosiect a'r amserlen ym mharagraff 2.5 yn cymryd i ystyriaeth unrhyw benderfyniadau a all godi neu y gall bod angen eu gwneud yn sgil ymchwilio i'r materion hyn. Mae cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2016 yn cyfeirio at nifer o bryderon a godwyd yn ystod y drafodaeth ar y mater hwn, gan gynnwys, er enghraifft, broblemau llifogydd posibl, iechyd a diogelwch a'r effaith ar dwristiaeth yn yr ardal. Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones ei fod yn awyddus i sicrhau bod pryderon a godir yn cael sylw priodol ac y cynhelir asesiad llawn cyn i'r prosiect fynd yn ei flaen i'r cam nesaf, a bod costau wedi eu dogfennu'n glir ar bob cam o'r prosiect, a bod Aelod Lleol yn cael gwahoddiad i wasanaethu ar y Bwrdd Prosiect.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai fod Capita wedi eu penodi i archwilio'r ystod o ffactorau a allai ddylanwadu ar addasrwydd y safle; os byddai unrhyw reswm penodol pam na allai'r datblygiad ddigwydd, yna ni fyddai cam nesaf y prosiect yn mynd yn ei flaen. Mae'r gwaith arbenigol i asesu addasrwydd y safle yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd yn parhau ym mis Ionawr; bydd canlyniad y gwaith ymchwiliol hwn yn penderfynu a ellir gwneud cais cynllunio ai peidio.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) ei bod yn hapus i drafod cynnwys Aelod o'r Pwyllgor Gwaith, yn ogystal ag Aelod Lleol i fod yn aelodau o'r Bwrdd Prosiect.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r cynnydd ers i'r Pwyllgor Gwaith roi caniatâd i symud ymlaen gydag ymchwiliadau cychwynnol i ddatblygu safleoedd Penhesgyn a Star a cherrig milltir allweddol arfaethedig ar gyfer darparu'r prosiect.**
- **Cymeradwyo'r defnydd mewn egwyddor o Orchymyn/ Gorchmynion Prynu Gorfodol er mwyn diogelu'r tir sy'n hanfodol ar gyfer datblygu Llety i Sipsiwn a Theithwyr rhag ofn na fydd Swyddogion yn gallu sicrhau'r safle drwy drafodaethau.**

## 9 MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dysgu yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad anstatudol ar ailwampio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni,

*Gan ei fod wedi datgan diddordeb yn y mater hwn, gadawodd y Cynghorydd Richard Dew y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r penderfyniad yn ei gylch.*

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg ar gefndir y mater, y digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd ar gyfer rhanddeiliad a'r argymhelliad ar gyfer symud ymlaen yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o ystod o opsiynau a gyflwynwyd fel posibiliadau. Cymeradwyodd yr Aelod Portffolio yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Dysgu y cynhaliwyd proses ymgynghori anffurfiol gyda rhieni, llywodraethwyr a staff o'r chwe ysgol yr effeithir arnynt yn ardal Llangefni yn y cyfnod o 3 Hydref - 13 Tachwedd, 2016. Ymgynghorwyd hefyd gyda Chynghorwyr lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Mae'r prif yrwyr ar gyfer newid i'w gweld yn rhan 2 o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol ac er bod lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd wedi bod yn ffactor blaenllaw ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd eraill o'r Ynys sydd wedi bod trwy'r broses foderneiddio eisoes neu sy'n mynd trwyddi ar hyn o bryd, nid dyna'r achos ar gyfer Llangefni lle mae prinder o leoedd mewn ysgolion cynradd. Dyna pam y cafwyd caniatâd i roi Llangefni ym Mand A yn hytrach nag ym Mandiau B neu C o'r Cynllun Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Cyfeiriodd y Swyddog at sylwedd yr ymatebion gan bob un o'r chwe ysgol ac 'roedd y ganran uchaf wedi dod o Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn. Cafwyd deiseb hefyd gan rieni disgyblion yn Ysgol Talwrn drwy'r Cyngor llawn ar 15 Rhagfyr, 2016. Ymhlith y materion a amlygwyd yn yr ymateb gan y rhanddeiliaid oedd manteision ysgolion llai; rôl ganolog ysgolion llai ym mywyd y gymuned; pwysigrwydd yr ysgolion i'r iaith Gymraeg yn yr ardal a'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol. Yn ogystal, rhoddwyd cyfle i bobl ifanc o ardal Llangefni roi eu barn ar y cynigion i foderneiddio ysgolion yn yr ardal a gwnaethant hynny mewn sesiwn awr ar 24 Tachwedd, 2016. Ceir crynodeb o'u sylwadau yn rhan 11 o'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Swyddog at y fethodoleg a ddefnyddiwyd i werthuso ystod o opsiynau ac amlinellodd y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu a sgorio'r opsiynau hynny. Mae dau brif opsiwn – sef Opsiynau A a B yn yr adroddiad wedi dod i'r amlwg o'r broses dadansoddi opsiynau ac mae'r rhain yn cael eu cynnig fel y sail ar gyfer cynnal proses ymgynghori ffurfiol, statudol ar ad-drefnu addysg gynradd yn ardal Llangefni.

Anerchodd y Cynghorwyr Dylan Rees a Nicola Roberts y Pwyllgor Gwaith fel Aelodau Lleol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Rees at yr angen i ostwng nifer y lleoedd gwag fel un o brif yrwyr y broses i ad-drefnu ysgolion cynradd ar yr Ynys ond pwysleisiodd nad yw gormod o leoedd gwag yn broblem yn ardal Llangefni ac mai'r gwrthwyneb sy'n wir; dywedodd fod Opsiynau A a B yn golygu cau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn a bod rhieni disgyblion yn y ddwy ysgol yn gwrthwynebu'n gryf fel y tystia'r adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees ei fod yn gobeithio y byddai'r Awdurdod yn profi ei fod yn awdurdod sy'n gwrando fel y mae'n dweud ei fod, trwy gymryd i ystyriaeth y sylwadau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori anffurfiol. Yn ogystal, cyhoeddwyd rheolau newydd gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru yn ddiweddar a oedd yn nodi rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yng Nghymru. Cydnabu'r Cynghorydd Nicola Roberts (a nododd ddiddordeb ar y sail bod ei merch yn ddisgybl yn Ysgol y Graig) yr angen i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni a bod angen datrys y prinder lleoedd ysgol yn yr ardal yn enwedig yn sgil pwysau ychwanegol o ddatblygiadau tai newydd. Gofynnodd am eglurhad ar y niferoedd disgyblion a nodwyd yn adroddiad y swyddog a dywedodd eu bod yn wahanol i'r rheini a gyhoeddwyd yn

yr adroddiadau gan yr ysgolion. Cyfeiriodd y Cynghorydd Nicola Roberts hefyd at y cyhoeddiad gan Ysgrifennydd Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno cynllun i ddarparu 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim yng Nghymru i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant 3 a 4 oed ac mai Ynys Môn fydd un o'r awdurdodau prawf ar gyfer y cynllun. Amlygodd y ffaith na all yr Awdurdod gynnwys darpariaeth feithrin o fewn ei gynlluniau ad-drefnu ysgolion ar hyn o bryd gan nad yw'r dull o asesu capasiti ysgol yn caniatáu i awdurdodau gymryd disgyblion ysgolion meithrin i ystyriaeth - dim ond disgyblion o oed ysgol statudol. Yn wyneb y cynllun gofal plant a'r goblygiadau o ran capasiti a darpariaeth yn y dyfodol, gofynnodd i'r swyddogion ystyried codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru. Cyfeiriodd ymhellach at y Cynllun Llwybr Diogel i'r Ysgol a gofynnodd am sicrwydd y bydd y cynllun yn parhau i fod yn hyfyw yn dilyn ad-drefnu ysgolion cynradd yn ardal Llangefni.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod rhaid i'r Awdurdod gymryd i ystyriaeth nifer y disgyblion yn ei ysgolion fel yr adlewyrchir y ffigyrau hynny mewn cyfrifiad a gynhelir ym mis Ionawr ac sy'n darparu ciplun o nifer y disgyblion ar y pryd. Cadarnhaodd fod asesiad traffig cynhwysfawr wedi ei gyflwyno gyda chynlluniau ad-drefnu ysgolion a bod yr asesiadau hynny'n edrych ar effaith y cynigion ad-drefnu ar drefniadau teithio i grwpiau o blant, yn enwedig o safbwynt diogelwch. Cadarnhaodd y Swyddog fod yr Awdurdod wedi cael cymorth gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun peilot ar gyfer gofal plant a dywedodd y byddai'n codi'r mater ynghylch cynnwys nifer y disgyblion meithrin mewn cyfrifiadau capasiti gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Dywedodd yr Arweinydd y gallai'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg hefyd godi'r mater mewn llythyr at Weinidog Llywodraeth Cymru dros Addysg.

Siaradodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws i groesawu'r ymgynghoriad â phobl ifanc yn ardal Llangefni a dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai hynny'n cael ei ailadrodd, nid yn unig yn y broses ymgynghori ffurfiol ar ad-drefnu ysgolion cynradd yn ardal Llangefni ond y byddai hefyd yn dod yn nodwedd o drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch cynlluniau trawsnewid yn y dyfodol.

Er yn cydnabod bod angen ystyried nifer o ffactorau wrth ddod i benderfyniad ar y model ar gyfer darparu addysg gynradd yn ardal Llangefni, pwysleisiodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod angen i unrhyw gynllun fod yn fforddiadwy o gofio na fydd Llywodraeth Cymru ond yn cyfrannu 50% o'r costau a bod disgwyl i'r Awdurdod ariannu'r 50% sy'n weddill. Cyflwynir adroddiad ar fforddiadwyedd Cynllun Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain i'r Pwyllgor Gwaith yn y Flwyddyn Newydd.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith fod y rhaglen moderneiddio ysgolion hefyd yn ceisio sicrhau gwell safonau, cysondeb y ddarpariaeth addysg a chyfleon cyfartal i bob disgybl ac er nad yw penderfyniadau o'r fath yn rhai hawdd, mae llawer o ffactorau i'w pwyso a'u mesur.

Ystyriodd a nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gyflwynwyd yn ogystal â'r sylwadau a wnaed.

**Penderfynwyd awdurdodi'r Swyddogion i symud ymlaen i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol pan fyddant yn ymgynghori ar Opsiynau A a B fel y'u disgrifir yn yr adroddiad.**

**10 GWAITH GWELLA I'R BRIFFORDD RHWNG CYFFORDD 3 AR YR 55 A WYLFA NEWYDD AR HYD YR A5 A'R A5025**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) ar waith gwella i'r briffordd rhwng cyffordd 3 ar yr A55 a Wylfa Newydd ar hyd yr A5 a'r A5025

DRAFT

Dywedodd y Cyfarwyddwr Prosiect (Prosiectau Mawr) fod y Pwyllgor Gwaith wedi awdurdodi camau paratoadol eisoes mewn perthynas â gwneud a chyflwyno Gorchmynion Prynu Gorfodol (GPG) i fwrw ymlaen gyda gwaith gwella priffyrdd fel rhan o ddatblygu Wylfa Newydd, a bod yr adroddiad hwn yn awr yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i wneud, cyflwyno a gweithredu Gorchmynion o'r fath i symud ymlaen â'r gwaith ar yr A5025. Cyn hynny, mae angen cwblhau Cytundeb Indemnio.  Cyfeiriodd y Swyddog at y cynlluniau GPG a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad ac a oedd yn dangos maint y tir sydd ei angen, a thynnodd sylw'r Pwyllgor Gwaith at y ffaith y gall bod angen gwneud mân-newidiadau i'r cynlluniau hyn wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen. 'Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod ac yn derbyn hyn.

**Penderfynwyd awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) -**

- **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i wneud a chyflwyno Gorchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol (GPG) yn unol ag adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981 a'r holl bwerau eraill y mae'r Pennaeth Gwasanaeth  yn ystyried eu bod yn angenrheidiol mewn perthynas â gwneud a chyflwyno GPG mewn perthynas â'r cyfan neu ran o'r tir a amlinellir mewn coch ar y Cynlluniau GPG yn Atodiad 1 yr adroddiad ac unrhyw dir arall y gellir ystyried ei fod yn angenrheidiol i wneud y gwaith ar yr A5025 gan gynnwys unrhyw gamau lliniaru.**
- **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i wneud a chyflwyno unrhyw Orchmynion Ffyrdd Ochr (GFfO) ac unrhyw orchmynion priffyrdd eraill sy'n angenrheidiol i alluogi cyflawni'r gwaith ar yr A5025.**
- **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y gellir gwneud, cadarnhau a gweithredu'r GPG, unrhyw GFfO ac unrhyw orchmynion priffyrdd eraill, gan gynnwys cyhoeddi a chyflwyno'r holl hysbysiadau, ceisiadau am wybodaeth a datganiadau o resymau, ynghyd â pharatoi a chyflwyno  achos y Cyngor mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus i sicrhau cadarnhau'r GPG a'r GFfO gan yr Ysgrifennydd Gwladol.**
- **Ar ôl cael cadarnhad o'r Gorchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol, i ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol perthnasol i gaffael tir a/neu hawliau trwy gytundeb.**
- **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i wneud cytundebau y mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried eu bod yn briodol gyda thirfeddianwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn y tir sy'n destun y Gorchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol i gaffael tir/hawliau a/neu i sicrhau y tynnir yn ôl wrthwynebiadau i'r GPG a'r GFfO.**
- **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i wneud unrhyw daliadau iawndal angenrheidiol (gan gynnwys taliadau interim) naill ai fel y cytunwyd gyda pherchnogion tir neu fel y penderfynir gan Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â chaffael buddiannau tir.**

## 11 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyriwyd a phenderfynwyd Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail ei bod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd.

DRAFT

## 12 AILDDATBLYGU NEUADD Y FARCHNAD

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dysgu a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mewn perthynas â materion yn ymwneud ag ailddatblygu Hyb Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliad yr adroddiad mewn perthynas ag ailddatblygu Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi.**

**Y Cynghorydd Ieuan Williams**
**Cadeirydd**

1

DRAFFT

# PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2016

**YN BRESENNOL:** Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg)
Y Cynghorydd Ann Griffith (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)
Y Cynghorydd Dylan Rees (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)
Mr Llyr Bryn Roberts (Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant)
Alex Kaitell (Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro)
Mr Gareth Llwyd (Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu a Sicrhau Ansawdd) (ar ran y SAA)
Dawn Owen (Rheolwr Tîm Lleoli Plant)
Huw Owen (Rheolwr Tîm PDG)
Dr Einir Thomas (Swyddog Addysg - ADY)
Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg PDG)
Llinos Edwards (Nyrs PDG - BIPBC)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Dr Caroline Turner (Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol Dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol), Mrs Rona Jones (Swyddog Adolygu Annibynnol - SAA)

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 5 MEDI 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Medi 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3 MATERION YN CODI**

- **Materion Iechyd**

  Nododd y Panel fod adborth o'r cyfarfod gyda'r Seicolegwyr Clinigol er mwyn rhoi sylw i faterion a godwyd yn y cynllun gweithredu llwybr drafft mewn perthynas â materion yn ymwneud â beichiogrwydd a pherthnasau ymysg y boblogaeth mewn gofal wedi cael eu hymgorffori yn adroddiad ysgrifenedig y Nyrs PDG yn eitem 8 ar y rhaglen ac y byddai'n cael ei ystyried bryd hynny.

- **Plant a Phobl Ifanc ar Goll o Ofal**

  Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant fod trafodaethau â'r Swyddog Casglu Data wedi cadarnhau nad yw'r gwasanaeth yn casglu data'n systematig am blant a phobl ifanc sydd ar goll o ofal gan nad yw hynny'n ddangosydd perfformiad safonol. Petai'r Panel yn dymuno derbyn data o'r fath yna gellir edrych ar greu proses ar gyfer casglu'r wybodaeth.

  Nododd y Panel ei fod yn dymuno derbyn sicrwydd fod popeth posib yn cael ei wneud i ganfod plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll o ofal o leoliadau ac y byddai'n dymuno cael gwybod a yw'r plant hyn yn cael eu canfod er mwyn derbyn sicrwydd am eu lles a'u diogelwch. Roedd y Panel yn pryderu'n arbennig am y plant a'r bobl ifanc hynny a allai fod wedi cael eu masnachu, ac sy'n mynd ar goll o ofal gan eu bod yn grŵp bregus iawn a bod peryg iddynt gael eu cam-fanteisio arnynt ymhellach.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrhau Ansawdd) fod y Gwasanaethau Plant yn cydweithio ag asiantaethau eraill mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll o ofal a'u bod yn ymwybodol o achosion o'r fath wrth iddynt godi. Mae'r rhain yn cael eu tracio a'u monitro drwy drefniadau gyda'r Tîm Dyletswydd a Heddlu Gogledd Cymru. Er nad yw gwybodaeth benodol yn cael ei chofnodi'n ffurfiol drwy'r system gasglu data, mae'r wybodaeth ar gael gan yr unigolion sy'n delio â'r achosion ar y pryd ac sy'n cydlynu'r gwaith monitro gyda Heddlu Gogledd Cymru. Mae statws risg plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll o ofal am dros 7 awr yn cael ei ddwysau ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru a chynhelir cyfarfod strategaeth.

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro fod gan y gwasanaeth drefniant gyda Barnardos mewn perthynas â chwblhau cyfweliadau dychwelyd adref a bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r Heddlu. Dylid ystyried sut y gellid darparu gwybodaeth reolaidd i'r Panel. Mae proses ddwysáu ar gyfer plant sy'n mynd ar goll o ofal ac mae'r gwasanaeth yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Plant Gogledd Cymru sy'n eglur o ran amlinellu'r broses a'r amserlen ar gyfer ymateb i achosion lle mae plant a phobl ifanc yn mynd ar goll o ofal. Fodd bynnag mae angen gwneud mwy o waith o ran y darlun lleol ac ar ddarparu tystiolaeth am yr hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud â'r data.

Nododd y Panel bod data am blant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll o ofal ar gael felly ac yn cael ei fonitro ond bod angen ei ddatblygu ymhellach fel bod darlun mwy lleol o rai all fod yn agored i niwed a risg, a bod angen rhoi proses yn ei lle ar gyfer adrodd yr wybodaeth yn systematig i'r Panel.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**GWEITHREDU YN CODI: Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro i baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll o ofal.**

**4 ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN – CODI CYRHAEDDIAD, CYFLAWNIAD A DYHEADAU PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

- Cyflwynwyd er sylw'r Panel - gohebiaeth ddyddiedig 2 Tachwedd, 2016 gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r uchod. Roedd yr ohebiaeth yn gofyn am eglurhad ynghylch y camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol i sicrhau bod arferion yn y maes hwn yn gyson â'r nodweddion llywodraeth leol effeithiol a gafodd eu hadnabod gan Estyn mewn perthynas â chodi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer a sut mae'r dull a argymhellir gan Estyn yn cael ei weithredu. **Nododd y Panel yr ohebiaeth**

- Cyflwynwyd er ystyriaeth y Panel - Cynllun Gweithredu gan y Gwasanaeth Addysg yn amlinellu'r camau gweithredu i'w cymryd gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r argymhellion sydd yn Adolygiad Thematig Estyn.

Adroddodd y Swyddog Addysg ADY fod y Cynllun Gweithredu wedi'i lunio mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Dysgu a bod trafodaethau wedi eu cynnal hefyd â Phennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol, y Prif Reolwr Gweithredu Dros Dro a'r Swyddog Cyswllt Addysg PDG. Mae'r Cynllun yn dangos y camau fydd yn cael eu cymryd, y swyddog cyfrifol, yr amserlen ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu, trefniadau ar gyfer monitro a'r deilliannau a ddeisyfir mewn perthynas â darparu darlun mwy cyfansawdd o gynnydd addysgol plant sydd mewn gofal. Dywedodd y swyddog bod llawer o'r gwaith wedi'i gwblhau ac mai un o'r camau mwyaf arwyddocaol fydd sefydlu Grŵp Tracio Cynnydd Plant mewn Gofal Sirol fydd yn adrodd i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar faterion yn ymwneud â chynnydd, perfformiad, ymyriadau, darpariaeth ac arfer orau, fydd yn gymorth i adnabod y gwelliannau sydd eu hangen yn arbennig o safbwynt agweddau addysg penodol. I ddechrau, bydd y grŵp yn cynnwys 5 o gynrychiolwyr ysgolion cynradd a 5 o gynrychiolwyr ysgolion uwchradd a chynhelir y cyfarfod agoriadol ym mis Ionawr 2017. Rhagwelir y bydd y Grŵp Tracio mewn sefyllfa i ddarparu adroddiad i'r Panel hwn yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2017.

**Cytunwyd i dderbyn a nodi Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Addysg.**

**GWEITHREDU SY'N CODI: Cyflwynir adroddiad cychwynnol gan y Grŵp Tracio Cynnydd Plant mewn Gofal Sirol i'r Panel yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2017.**

**5 CEFNOGAETH I'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL – GOHEBIAETH GAN GOMISIYNYDD PLANT CYMRU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Panel - gohebiaeth ddyddiedig 14 Tachwedd 2016 gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ynglŷn â chefnogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal. Roedd yr ohebiaeth yn amlinellu bwriad y Comisiynydd Plant i adfywio'r drafodaeth am yr hyn y gall pob awdurdod lleol ei gynnig i sicrhau bod cefnogaeth gyson yn cael ei chynnig i bawb sy'n gadael gofal ledled Cymru gyda'r nod, erbyn 2019, y bydd cynnydd mesuradwy wedi'i wneud o ran cynnig mynediad i opsiynau tai diogel a sicr i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a chynnig gweithredol o swydd, addysg neu le hyfforddi.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol bod y Comisiynydd Plant yn cyfeirio'n benodol yn ei llythyr at dair elfen gefnogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal mewn perthynas â thai, addysg a chyfleoedd gwaith a hyfforddiant. Mae'r Comisiynydd Plant yn cynnig trafod yr elfennau hyn mewn cyfarfod â swyddogion allweddol ac Aelodau Etholedig ac mae o'r farn bod yr elfennau hyn yn agweddau hanfodol wrth gefnogi ymadawyr gofal i gael y dechrau gorau ar gyfer byw'n annibynnol. Mae gan Wasanaeth Plant Ynys Môn gynllun yn ei le i adolygu trefniadau ôl-ofal ac mae hwn yn cael ei weithredu. Mae'r Comisiynydd yn cyfeirio'n benodol at y disgwyliad bod Awdurdodau lleol, sy'n rhieni corfforaethol ar y plant sydd dan eu gofal, yn cynnig lleoedd gwaith a hyfforddiant i ymadawyr gofal, yn union fel y byddai unrhyw riant arall yn gwneud o fewn eu cwmnïau teuluol eu hunain.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro bod Prosiect Trawsnewid yn cael ei weithredu o fewn Gwasanaethau Plant yn ymwneud ag ymadawyr gofal a sefydlwyd yn wreiddiol i roi sylw i'r adroddiad 'Ar Goll ar ôl Gofal'. Mae'r prosiect yn edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, barn y rhai sy'n gadael gofal eu hunain am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a beth sydd ei angen er mwyn symud ymlaen. Bwriedir dod ag adroddiad i'r Panel hwn ar sut mae'r gwasanaeth yn asesu ei sefyllfa, lle mae'n dymuno bod a'r heriau sy'n ei wynebu yn y meysydd allweddol y mae'r Comisiynydd Plant wedi eu hadnabod. Un o'r prif heriau yw ymgysylltu'n llwyddiannus â meysydd gwasanaeth ehangach o fewn y Cyngor o ran cyfrannu at amcanion rhiantu corfforaethol. Mae rhiantu corfforaethol, trwy ddiffiniad, yn gyfrifoldeb sy'n cynnwys yr awdurdod cyfan ond yn aml mae'r ffocws ar Wasanaethau Cymdeithasol Plant. Mae cynnydd wedi'i wneud e.e. diweddaru'r Polisi Tai a chreu Polisi Ariannol sy'n gosod disgwyliadau mewn perthynas â chefnogaeth ariannol i ymadawyr gofal.

Rhoes y Panel ystyriaeth i'r ohebiaeth a gyflwynwyd a'r wybodaeth a ddarparwyd gan swyddogion a gwnaed y sylwadau canlynol:

- Roedd y Panel yn nodi ac yn cefnogi dyheadau'r Comisiynydd Plant ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Nododd y Panel bod y Comisiynydd Plant yn disgwyl i awdurdodau lleol, yn ogystal â rhoi cymorth gweithredol i ymadawyr gofal i gael gwaith neu gyfleoedd hyfforddi, roi cynnig gweithredol o swydd neu le hyfforddi yn eu sefydliad eu hunain i ymadawyr gofal.
- Nododd y Panel ei bod yn annhebygol y byddai pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gallu cwrdd â'u costau tai yn arbennig yn sgil effaith y Bil Diwygio Lles a gofynnwyd am eglurhad ar sut mae'r Awdurdod yn bwriadu eu cynorthwyo i ddal eu gafael ar lety yn y byd go iawn. Hysbyswyd y Panel bod yr awdurdod lleol yn darparu llety ar gyfer ymadawyr gofal gyda'r ymateb yn digwydd ar lefel unigol. Datblygwyd protocol ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Tai ac mae'n cael ei adolygu o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd. Mae'r Gwasanaeth Tai yn darparu pecyn cychwynnol i ymadawyr gofal a chynigir cynllun blaendal rhent hefyd. Fodd bynnag, mae angen datblygu dull corfforaethol mwy torfol o weithio yn hytrach na bod swyddog unigol yn rhoi sylw i faterion achos wrth achos.
- Gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch a oedd ymgais wedi ei wneud i gael ymrwymiad asiantaethau partner. Hysbyswyd y Panel bod angen gwneud gwaith pellach yn y lle cyntaf o ran sicrhau bod adrannau eraill y Cyngor yn ymrwymo i riantu corfforaethol ac i godi ymwybyddiaeth bod rhiantu corfforaethol yn cynnwys yr awdurdod ehangach ac nad

cyfrifoldeb Gwasanaethau Plant yn unig ydyw. Mae llythyr y Comisiynydd Plant yn rhoi cyfle i amlygu'r mater. **Cytunwyd y byddai Swyddogion yn ymgynghori â gwasanaethau eraill o fewn y Cygor ynghylch eu cyfraniad hwy o ran cyflawni amcanion rhiantu corfforaethol.**

- Gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch ei awdurdod o ran gyrru'r agenda hwn yn ei flaen. Hysbyswyd y Panel ei fod yn meddu ar statws gweithgor parhaol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ac y gall y Panel wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith.

**Cytunwyd i nodi gohebiaeth Comisiynydd Plant Cymru.**

**GWEITHREDU YN CODI: Cyflwyno hunanasesiad Gwasanaethau Plant o drefniadau gadael gofal ynghyd â Chynllun Gweithredu Corfforaethol i gyfarfod nesaf y Panel.**

## 6 ADRODDIAD Y SWYDDOG ADOLYGU ANNIBYNNOL (SAA)

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Panel - adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 2 2016/17. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data meintiol mewn perthynas â nifer y plant sydd mewn gofal; eu statws cyfreithiol; nifer a natur y lleoliadau; yr ymweliadau statudol yr ymgymerwyd â hwy, perfformiad y SAA yn erbyn dangosyddion allweddol a llwyth achosion y SAA.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu a Sicrhau Ansawdd - ar y prif ystyriaethau canlynol -

- Bod nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu lletya gan y Cyngor wedi codi i 135 erbyn mis Medi 2016 o'i gymharu â 126 ddiwedd mis Mehefin 2016.
- Bod y boblogaeth mewn gofal ar Ynys Môn yn cynyddu'n raddol ers chwarter cyntaf 2014/15 fel y mae'r graff ym mharagraff A (iii) yn ei ddarlunio.
- O safbwynt statws cyfreithiol, cafwyd cynnydd bach yn nifer y plant a phobl ifanc sydd â Gorchmynion Gofal Llawn yn yr Awdurdod ac yn yr un modd mae ychydig o gynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu lletya gyda chaniatâd rhieni o dan Adran 76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Efallai y bydd rhaid i'r Awdurdod dargedu'r grŵp hwn o ran cefnogaeth ac ymyrraeth fel bod y plant yn gallu dychwelyd at eu rhieni ac amgylchedd teulu.
- Erys diogelu fel y prif reswm pam fod plant a phobl ifanc yn cael eu lletya gan y Cyngor.
- Bod cynnydd yn nifer yr adolygiadau PDG a gynhaliwyd o fewn yr amserlen o 81.48% i 85.96%. Cynhaliwyd 113 adolygiad PDG yn Chwarter 2 ac roedd 27 ar Ynys Môn (57 yn flaenorol) a 41 yn All-Sirol (24 yn flaenorol); mae'r olaf yn arbennig yn rhoi pwysau ar y swyddog sy'n cynnal yr adolygiadau. Mae angen rhoi sylw i'r plant sy'n derbyn gofal o ganlyniad i flaengareddau newydd sy'n cael eu datblygu mewn perthynas â gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol er mwyn sefydlu a oes modd i rai ohonynt ddychwelyd yn ddiogel i amgylchedd y teulu. Bydd angen ymyrraeth fwy dwys ar eraill cyn gwneud cynlluniau mwy parhaol ar eu cyfer, sef mabwysiadu.
- O safbwynt materion sy'n codi, mae llwyth achosion y SAA yn parhau'n uchel iawn, gyda 135 achos. Ar hyn o bryd mae camau'n cael eu cymryd i recriwtio ail SAA er mwyn lleihau'r llwyth gwaith.
O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Y cynnig yw gostwng oedran derbyn Ysgol Brynsiencyn o 31 Awst 2017.

**Crynodeb**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ymateb i gais a wnaed gan gorff llywodraethol Ysgol Brynsiencyn i ostwng oedran derbyn yr ysgol a derbyn disgyblion yn rhan-amser o 31 Awst 2017 ymlaen.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi rhesymwaith priodol dros y manteision disgwyliedig arfaethedig o gymharu â'r sefyllfa sydd ohoni. Mae'r cynnig yn diffinio manteision disgwyliedig y cynnig yn ddigonol ac mae'r rhain yn cysylltu'n briodol â'r diben a'r rhesymwaith datganedig. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu tystiolaeth addas i ddangos sut mae'r cynllun o leiaf yn debygol o gynnal safon yr addysg yn yr ardal. Mae'r cynigiwr yn nodi manteision y cynnig yn briodol ond nid yw wedi nodi anfanteision y cynnig presennol yn briodol ac nid yw'r effaith bosibl ar y Cylch Meithrin wedi'i amlygu'n fanwl. Mae'r cynigiwr wedi dangos yn briodol sut bydd y cynnig yn effeithio ar leoedd dros ben yn Ysgol Brynsiencyn. Nod y cynnig yw gostwng nifer arfaethedig y lleoedd dros ben trwy dderbyn pum disgybl rhan-amser a fydd yn dair oed erbyn Medi 2017, ar sail rhagolygon derbyn presennol.

Mae'r ysgol a Chylch Meithrin Brynsiencyn yn lleol yn dilyn Polisi Iaith Gymraeg yr awdurdod lleol. Mae'r cynigiwr yn haeru y byddai'r trefniadau newydd yn ategu darpariaeth well ar gyfer y Gymraeg gan fod yn rhaid i Ysgol Brynsiencyn addysgu disgyblion yn unol â'r polisi iaith ar gyfer ysgolion.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried deilliannau adroddiadau arolygu mwyaf diweddar Estyn ar gyfer Ysgol Brynsiencyn a Chylch Meithrin Brynsiencyn yn briodol ac mae'n haeru'n rhesymol na fyddai'r cynnig yn effeithio'n anffafriol ar y safonau presennol yn yr ysgol.
Nid yw'r cynigiwr wedi cynnal asesiad priodol o'r effaith ar gydraddoldeb i ystyried effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rhai ag anabledd neu ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

## Appendix B Estyn's response.

**Estyn response to the proposal to lower the admission age of Ysgol Brynsiencyn as from 31 August 2017**

This report has been prepared by Her Majesty's Inspectors of Education and Training in Wales.

Under the terms of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and its associated Code, proposers are required to send consultation documents to Estyn. However, Estyn is not a body which is required to act in accordance with the Code and the Act places no statutory requirements on Estyn in respect of school organisation matters. Therefore as a body being consulted, Estyn will provide their opinion only on the overall merits of school organisation proposals.

Estyn has considered the educational aspects of the proposal and has produced the following response to the information provided by the proposer and other additional information such as data from Welsh Government and the views of the Regional Consortia which deliver school improvement services to the schools within the proposal.

### Introduction

The proposal is by Isle of Anglesey County Council.

The proposal is to lower the admission age of Ysgol Brynsiencyn as from 31 August 2017.

### Summary

The proposal by Isle of Anglesey County Council is in response to a request made by the governing body of Ysgol Brynsiencyn to lower the admission age of the school to admit pupils on a part time basis from 31 August 2017.

It is Estyn's opinion that the proposal is likely to at least maintain the current standards of education in the area.

### Description and benefits

The local authority has given an appropriate rationale for the proposed expected benefits when compared with the status quo. The proposal adequately defines the expected benefits of the proposal and these link appropriately to the stated purpose and rationale. The local authority has provided suitable evidence to show how the plan is likely to at least maintain the standard of education in the area.

The proposer notes appropriately the advantages of the proposal but has not identified appropriately the disadvantages to the current proposal and the potential impact on the Cylch Meithrin isn't highlighted in any detail. The proposer has

appropriately shown how the proposal will affect surplus places at Ysgol Brynsiencyn. The proposal aims to reduce the projected number of surplus places by admitting five part time pupils who will be three years old by September 2017, based on current admission forecasts.

Both the school and the local Cylch Meithrin Brynsiencyn adhere to the local authority's Welsh Language Policy. The proposer maintains that the new arrangements would support improved provision for the Welsh language as Ysgol Brynsiencyn has to teach pupils in accordance with the Welsh language policy for schools.

The proposer has considered appropriately the outcomes of the most recent Estyn inspection reports for both Ysgol Brynsiencyn and Cylch Meithrin Brynsiencyn and asserts reasonably that the proposal would not impact unfavourably on the current standards at the school.

The proposer has not undertaken an appropriate equality impact assessment to consider the impact of the proposal on vulnerable groups including those with a disability or pupils with special educational needs.

Atodiad 2.

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL BRYNSIENCYN AR 31 AWST 2017**

***EQUALITY IMPACT ASSESSMENT REGARDING PROPOSALS TO LOWER THE ADMISSION AGE OF YSGOL BRYNSIENCYN AS FROM 31 AUGUST 2017***

## *1. CEFNDIR*

Yn ystod y cyfnod rhwng 24 Hydref a 4 Rhagfyr 2016 bu ymgynghoriad ar y cynnig canlynol -

"Y cynnig yw i ostwng oed mynediad Ysgol Brynsiencyn i dderbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o 31 Awst 2017."

Ymwelwyd gyda staff y Cylch Meithrin ar 7 Medi 2016 I drafod y cynnig a'r goblygiadau I'r Cylch Meithrin.

Trafodwyd Dogfen Ymgynghori Drafft mewn cyfarfod agored yn yr ysgol ar 13 Medi gyda 19 o bobl yn bresennol. Roedd Llywodraethwyr, staff ysgol, rhieni a staff a swyddogion Mudiad Meithrin yno'n bresennol. Yn dilyn y drafodaeth buddiol a derbyn sylwadau adeiladol cwblhawyd y ddogfen (Atodiad A)

Rhannwyd y ddogfen ymgynghori i bawb sydd â diddordeb, gan gynnwys yr Awdurdod a sicrhawyd bod copiau o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn yr ysgol ac yn y lleoliadau nas-gynhelir perthnasol ac ar safwe Cyngor Sir Ynys Môn.

Pan fo newidiadau fel hyn o bosibl yn mynd i ddigwydd, yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith 'polisïau ac ymarferion'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effeithiau tebygol neu wirioneddol ei bolisïau a'i ymarferion ar grwpiau a amddiffynnir a rhoi 'ystyriaeth briodol' i'r canlyniadau asesu hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw'r polisi na'r arfer yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y grwpiau a amddiffynnir
- ystyried sut mae'r polisi neu'r ymarfer yn hybu gwell cyfleoedd cyfartal
- ystyried a yw'r polisi'n effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau

Mae'n angenrheidiol cwblhau asesiadau pan gynigir neu'r adolygir polisi neu arfer. Mae hyn yn cynnwys cynllunio busnes, arbedion effeithlonrwydd ac ad-drefnu staff. Mae'n rhaid i awdurdod gyhoeddi adroddiad pan fydd asesiad yn dod i'r casgliad y bydd effaith sylweddol ar gydraddoldeb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Cyngor, wrth iddi gefnogi ei waith i ystyried yr angen am:

- ddiddymu gwahaniaethau, aflonyddwch ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a amddiffynnir a rhai nad ydynt

- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd a amddiffynnir a rhai nad ydynt

Mae’r asesiad hwn yn edrych ar effaith unrhyw newid posibl ar gydraddoldeb ar ddeg grŵp cydraddoldeb:

1. Hil
2. Anableddau
3. Rhyw
4. Oed
5. Crefydd neu Gred– yn cynnwys diffyg cred
6. Gogwydd rhywiol
7. Y Gymraeg
8. Newid rhyw
9. Beichiogrwydd a mamolaeth
10. Arall

Prif ffynhonnell yr wybodaeth a ganlyn yw’r ffigurau a fwydir yn ôl i Lywodraeth Cymru o gyfrifiad blynyddol sef Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel disgybl (CYBLD /PLASC).

## *2. ASESU*

### 2.1 **Hil**

O’r disgyblion sydd dros 5 oed, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn Ysgol Brynsiencyn yn ‘Wyn Prydeinig’.

Mae gwybodaeth mewn perthynas â hil yn cael ei hystyried yn ‘ddata sensitif’ ac fel y cyfryw, mae gwybodaeth am ddisgyblion o dan 5 oed yn cael ei dal yn ôl.

Nid oes tystiolaeth sy’n awgrymu bod plant na staff o hil wahanol yn cael eu trin yn wahanol.

### 2.2 **Anabledd**

Mae % y disgyblion sy’n derbyn darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (A.A.A.) yn yr ysgol fel y gwelir yn Nhabl 1, yn cynnwys disgyblion sy’n destun datganiad o anghenion arbennig.

**<u>Tabl 1</u> -** % y disgyblion sy’n derbyn darpariaeth A.A.A.

| Gweithredu gan yr Ysgol | Gweithredu a Mwy gan yr | Testun Datganiad | Cyfanswm gydag |
|---|---|---|---|

| | **Ysgol** | | **A.A.A.** |
|---|---|---|---|
| 28.6% | 2.4% | 2.4% | 33.4% |

Mae'r sefyllfa mewn perthynas â hygyrchedd yr ysgolion ar gyfer yr anabl fel a ganlyn:

**Tabl 2**

| **Esgynfa?** | **Toiled hygyrch?** | **Man 2 lawr?** | **Lifft yn bresennol?** |
|---|---|---|---|
| Oes* | Oes** | Nac oes* | Dd/B |

*Mae'r esgynfa sy'n arwain at flaen yr ysgol (derbynfa, ystafell athrawon, swyddfa'r pennaeth a toiledau'r staff) ond mae'r neuadd a dosbarthiadau Ysgol Brynsiencyn ar lefel is na gweddill yr adeilad – nid oes cadair esgyn i roi mynediad i'r anabl.
**Mae'r toiledu hyn yn hygyrch i'r anabl ond nid ydynt wedi eu cynllunio i'r anabl gael mynediad iddynt

Ni cheir tystiolaeth sy'n awgrymu bod disgyblion na staff anabl yn cael eu trin yn wahanol.

2.3 **Rhyw**

Gweler Tabl 3 isod am y % o fechgyn a genethod yn Ysgol Brynsiencyn.

**Tabl 3**

| Nifer y bechgyn o oed ysgol statudol | Nifer y genethod o oed ysgol statudol |
|---|---|
| 47.6% | 52.4% |

Er y gellid bod gwahaniaeth rhwng perfformiad addysgol bechgyn a genethod, mae unrhyw newid yn y cyfluniad yn annhebygol o ddwysáu hyn. Adlewyrchir hyn yn adroddiad Estyn

**Ysgol Brynsiencyn (Adroddiad Estyn Mehefin 2012)**

"Yn gyffredinol, ni cheir gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad y rhywiau yn nhermau cadw'r lefel ddisgwyliedig yn saith oed. … Yng nghyfnod allweddol 2, ni cheir llawer o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a genethod yn nhermau cyrraedd y lefel ddisgwyliedig."

Ni cheir unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod bechgyn a genethod yn cael eu trin yn wahanol na bod staff gwrywaidd neu fenywaidd yn cael eu trin yn wahanol.

2.4 **Oed**

Ni roddir unrhyw wybodaeth yr ystyrir ei bod yn 'sensitif' e.e. ethnigrwydd, rhyw ar gyfer plant o dan 5 yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Ni cheir unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod disgyblion o oed penodol yn cael eu trin yn wahanol. Nid oes tystiolaeth ychwaith bod gwahaniaethu ar sail oed yn digwydd gyda staff yr ysgolion.

2.5 **Crefydd neu gred**

Mae Ysgol Brynsiencyn yn ysgol Cymunedol a nid yw'n gysylltiedig ag enwad crefyddol.

Mae adroddiad Estyn yn rhoi'r sylw canlynol

**Ysgol Brynsiencyn (Adroddiad Estyn Mehefin 2012)**

"Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol disgyblion yn dda."

Ni cheir unrhyw dystiolaeth bod gwananiaethu ar sail crefydd neu gred yn digwydd gyda staff yr ysgol.

2.6 **Gogwydd Rhywiol**

Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Bolisi Gogwydd Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn digwydd gyda staff ysgol.

2.7 **Y Gymraeg**

Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda Pholisi Dwyieithog yr Awdurdod gyda'r disgwyl y bydd disgyblion yn ddwyieithog erbyn 11 oed.

2.8 **Newid Rhyw**

Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gynllun Cydraddoldeb Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd gyda staff yr ysgol.

2.9 **Beichiogrwydd a mamolaeth**

Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol.

Mae staff benywaidd sy'n mynd yn feichiog â hawl i gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Cyfnod Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae staff gwrywaidd yn gymwys ar gyfer cyfnod tadolaeth yn unol â Pholisi Cyfnod Tadolaeth. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd na chymryd cyfnod tadolaeth yn digwydd gyda staff yr ysgolion.

2.10 **Arall**

Mae % y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Brynsiencyn ac sy'n gymwys ar gyfer prydau di-dâl yn 23%. Y ffigwr i'r Awdurdod yw 19% ac i Gymru yn 20.1%

Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cymhwyster ar gyfer prydau di-dâl yn digwydd. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail ffactorau economaidd-gymdeithasol yn digwydd gyda staff yr ysgolion.

## 3. CASGLIAD

Mae'r Asesiad yn dangos nad oes potensial ar gyfer gwahaniaethu yn erbyn neu effeithiau niweidiol o safbwynt cydraddoldeb.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Ionawr 23 2017** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn –Symud dyddiad gweithredu'r rhybuddion statudol ar gyfer Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Cybi** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Emrys Bebb** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes**<br>**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**<br>**Y Cynghorydd John Griffith**<br>**Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes**<br>**Y Cynghorydd Jeffrey Evans**<br>**Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, cyhoeddodd yr Awdurdod **Rybuddion Statudol** o'i fwriad i:

- gyfuno tair ysgol - Ysgol Llanfachraeth, Ysgol Ffrwd Win ac Ysgol Cylch y Garn - mewn un ysgol newydd ar safle yn Llanfaethlu ac i'r ysgol newydd fod yn ysgol gymunedol.
- gyfuno tair ysgol - Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc - mewn un ysgol newydd ar hen safle adeilad Cybi ac i'r ysgol newydd fod yn ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Cyhoeddwyd y **Rhybuddion Statudol** ar Fehefin 19 2015 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynigion yn dilyn a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar Orffennaf 17, 2015. Ni dderbyniwyd yr un gwrthwynebiad i'r naill gynnig na'r llall. Er hynny, dyddiad gweithredu'r ddau gynnig oedd Chwefror 1, 2017. Mae oedi wedi gwthio dyddiad cychwyn y ddau brosiect yn ôl (archeoleg yn Rhyd y Llan a statws rhestredig hen adeilad Cybi) sy'n golygu na fydd y naill adeilad yn barod erbyn yr adeg honno. Yn hytrach y nod yw agor y ddwy ysgol ar 1 Medi 2017.

Dywed rhan 6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013: "Pan fydd cynigion wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol ... caiff y cynigwyr benderfynu gohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu yn ei flaen neu roi'r gorau iddo. Rhaid i unrhyw gais o'r fath am gytundeb gael ei wneud yn ysgrifenedig gan nodi rhesymau'r cynigydd yn glir. Rhaid hysbysu partïon perthnasol ... o unrhyw benderfyniad i ohirio cynnig ... cyn saith diwrnod o ddyddiad y penderfyniad hwnnw." Yn unol â hyn, mae angen i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, fel cynigydd y ddau fwriad yn y rhybuddion statudol benderfynu gohirio dyddiad gweithredu'r ddau gynnig i 1 Medi 2017.

**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:**

i. Yn cymeradwyo oedi dyddiad gweithredu'r ddau gynnig i gwblhau Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Cybi tan 1 Medi 2017.

Yn amodol ar i. uchod, bydd swyddogion yna'n hysbysu'r "partïon perthnasol" o'r penderfyniad i ohirio dyddiad gweithredu'r cynigion ar gyfer Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Cybi.

**Cefndir:**
**Ysgol Rhyd y Llan**
Yn Ionawr 2012, rhoddodd Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn ganiatâd i swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes ymweld ag ysgolion cynradd yng Ngogledd Orllewin Môn i ymgynghori ar opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth addysg ysgolion cynradd yn yr ardal. Wedi derbyn y caniatâd hwn, cynhaliodd swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes gyfarfodydd ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rheini ym mis Hydref 2012 a dilynodd cyfnod ymgynghori 6 wythnos a ddaeth i ben ar Dachwedd 20, 2012. Derbyniwyd llawer o ymatebion a chasglwyd y rhain mewn adroddiad gan swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes a'u cyflwyno i Bwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden Cyngor Sir Ynys Môn yn ei gyfarfod ar Ionawr 15, 2013. Yn y cyfarfod hwnnw ar Ionawr 15, 2013, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden:

- Argymell Opsiwn 5 (Ysgol ardal newydd ar gyfer Llanfachraeth, Llanfaethlu a Llanrhuddlad) i'r Pwyllgor Gwaith fel opsiwn dewisol y Pwyllgor ar gyfer ymgynghori ffurfiol ar yr arolwg o ddarpariaeth addysg gynradd yng Ngogledd Orllewin Ynys Môn yn ddarostyngedig i adnabod cyllid a safle addas ar gyfer y datblygiad cyn dechrau'r broses ymgorffori ffurfiol.

Yn ei gyfarfod ar Chwefror 11, 2013, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gefnogi Opsiwn 5 (sef ysgol ardal newydd ar gyfer Llanfachraeth, Llanfaethlu a Llanrhuddlad) fel opsiwn dewisol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori ffurfiol ar yr arolwg o ddarpariaeth addysg gynradd yng Ngogledd Orllewin Môn yn ddarostyngedig i adnabod arian a safle addas ar gyfer datblygu cyn dechrau ar y broses ymgynghori ffurfiol. Roedd y cyfnod ymgynghori statudol neu ffurfiol yn rhedeg o Fawrth 31, 2014 at 19 Fai, 2014. Ymgynghorwyd gyda disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, y gymuned leol a phob un arall sydd â diddordeb.

Adnabuwyd a phrynwyd safle ar gyfer yr ysgol newydd yn Llanfaethlu. Fel rhan o'r broses i asesu addasrwydd y tir, darganfuwyd nifer o olion archeolegol ar y safle. Golygodd hyn oedi yn y broses fel nad oedd y gwaith adeiladu'n gallu cychwyn tan Mai 2016 ac o ganlyniad i hyn, mae'n gwthio dyddiad gweithredu'r rhybudd statudol yn ôl.

**Ysgol Cybi**
Yn ei gyfarfod ar Ragfyr 10, 2012, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn argymell uno 3 ysgol h.y. Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis mewn ysgol newydd fel opsiwn dewisol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori ffurfiol ac mai safle Cybi ddylai'r safle dewisol fod ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi.

Ar Fai 19, 2014 awdurdodwyd swyddogion i symud tuag at y broses ymgynghori ffurfiol. Y cynnig ar gyfer ymgynghori ffurfiol oedd ar gyfer ysgol gynradd i 540 o ddisgyblion a 75 o ddisgyblion meithrin drwy gyfuno disgyblion o Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc mewn adeilad newydd ar safle Cybi. Statws yr ysgol yr ymgynghorir yn ei chylch yw iddi fod yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru (yn yr un modd ag Ysgol y Parchedig Thomas Ellis).

Yn ei gyfarfod ar Dachwedd 3, 2014, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith:
"Penderfynwyd cyfuno'r tair ysgol – Ysgol y Parchedig Thomas Ellis, Ysgol Llaingoch ac Ysgol y Parc – mewn un ysgol newydd ar safle Cybi ac y bydd yr ysgol newydd dan reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru."

Adnabuwyd safle ar gyfer yr ysgol gynradd newydd sef safle hen adeilad Cybi. Cododd nifer o faterion cadwraeth fel rhan o'r broses cynllunio gan fod yr adeilad yn rhestredig. Golygodd hyn oedi yn y broses fel nad oedd y gwaith adeiladu'n gallu cychwyn tan Ionawr 2016 ac o ganlyniad i hyn, mae'n gwthio dyddiad gweithredu'r rhybudd statudol yn ôl. Ystyriwyd ffactorau eraill fel dyddiadau profion cenedlaethol bob mis Mai a byddai symud i'r adeilad ar yr adeg honno o bosib yn cael effaith andwyol ar y canlyniadau hyn.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| **Ysgol Rhyd y Llan**<br>Ystyriwyd peidio newid dyddiad gweithredu'r rhybudd statudol ond ni fyddai'r ysgol yn barod ar Chwefror 1 2017. Gobeithir bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2017. Byddai'r gwyliau haf yn dilyn ac felly bydd 1 Medi 2017 yn adeg addas i agor yr ysgol ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd.<br><br>**Ysgol Cybi**<br>Ystyriwyd peidio newid dyddiad gweithredu'r rhybudd statudol ond ni fyddai'r ysgol yn barod ar Chwefror 1 2017. Gobeithir bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2017. Byddai trosglwyddo'r disgyblion ym mis Mai yn tarfu ar brofion cenedlaethol y plant. Byddai'r gwyliau haf yn dilyn ac felly bydd 1 Medi 2017 yn adeg addas i agor yr ysgol ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae’r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw |

| DD – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydyw – Mae’r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Ni dderbyniwyd sylw |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion staffio sy’n codi o’r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac adnoddau dynol eraill cydnabyddedig. Os oes angen cymorth AD o ran ymgynghori mae angen adeiladu capasiti’r uned er mwyn gallu cynnwys hwn yn y llwyth gwaith. |
| 6 | **Eiddo** | Mae’r Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol yn cytuno gyda’r argymhelliad |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim sylw |
| 8 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Dim sylw |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Cyrff Llywodraethu cysgodol y ddwy ysgol yn cytuno efo dyddiadau gweithredu diwygiedig y rhybuddion statudol. |

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Cwblhawyd asesiad effaith cydraddoldeb fel rhan o'r broses ymgynghori statudol ar gyfer y ddau gynllun |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| |

**G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Rhagfyr 10, 2012, Chwefror 11, 2013 a Tachwedd 3, 2014.
2. Dogfennau Ymgynghori Statudol
3. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.
4. Llythyr gan Lywodraeth Cymru ddyddiedig Ionawr 31 2014.
5. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig Tachwedd 3 2014.
6. Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 rhannau 1.2 i 1.6 a rhan 6.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **23 IONAWR 2017** |
| **PWNC:** | **TREFNIADAU CYLLIDO AR GYFER YSGOLION NEWYDD** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **R ARWYN HUGHES**<br>01248 751894<br>Arwyn Hughes@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Lluniwyd y Polisi Ariannu Teg cyfredol pan gyflwynwyd y drefn o ddirprwyo cyllidebau i ysgolion yn y 1990au cynnar ac nid yw wedi newid fawr ddim ers hynny. Nid yw'n darparu ar gyfer y sefyllfa gyfredol pan fo nifer o ysgolion yn cau ac un ysgol newydd yn agor yn eu lle. Mae'r argymhellion canlynol yn cynnig ffordd o ddelio â materion sy'n ymwneud ag ariannu ysgolion newydd yn y flwyddyn gyntaf a'r blynyddoedd dilynol, delio gyda chronfeydd wrth gefn a delio gyda'r costau unwaith ac am byth sy'n codi o'r newidiadau.

**Argymhellion**

**1.** Yn y flwyddyn gyllido gyntaf, gosod cyllidebau ar gyfer unrhyw ysgolion sy'n cau neu ysgolion newydd sy'n eu holynu, a hynny'n seiliedig ar ddyraniad cyllidebol yr ysgolion cyfredol ar gyfer blwyddyn lawn, ac yna rhannu'r cyfanswm rhwng yr ysgolion sy'n cau a'r ysgolion newydd sy'n cymryd eu lle, yn seiliedig ar ddyddiadau cau neu agor pob ysgol.

**2.** Diwygio'r Polisi Ariannu Teg, er mwyn caniatáu trosglwyddo unrhyw warged cyfun sydd gan yr ysgolion sy'n cau i'r ysgol newydd sy'n cymryd eu lle, hyd at y trothwy o £50,000 ar gyfer y sector Cynradd / £100,000 ar gyfer y sectorau Uwchradd ac Arbennig neu 5% o ddyraniad cyllidebol yr ysgol sy'n olynu.

**3.** Trosglwyddo i'r gyllideb Addysg Ganolog unrhyw warged sydd dros £50,000 / £100,000 yn yr ysgolion sy'n cau, neu sy'n uwch na 5% o ddyraniad cyllidebol yr ysgol newydd, a hynny er mwyn talu am gostau trosiannol yn y flwyddyn gyntaf.

**4.** Pan geir arbedion refeniw yn sgil cau ysgolion a sefydlu un ysgol newydd arall yn eu lle, bydd unrhyw arbediad refeniw yn cael ei dynnu o gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgol fel cyfraniad i'r cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf sy'n deillio o'r buddsoddiad yn yr ysgolion newydd.

**5.** Bydd unrhyw bwysau Diogelu Cyflog yn cael eu tynnu o'r arbediad refeniw uchod (pwynt 4). Dylai'r cyflog cyfartalog ar gyfer yr ysgol newydd gynnwys unrhyw bwysau o ran diogelu cyflogau. Bydd yr ysgol newydd yn gyfrifol am dalu'r costau diogelu cyflogau. Unwaith y bydd y diogelwch cyflog wedi dod i ben, bydd yr arbediad hwn hefyd yn cael ei dynnu o Gyllideb Ddirprwyedig yr ysgol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? | | |
|---|---|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| • Atodiad A – Trefniadau Cyllido ar gyfer Ysgolion newydd | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Trefniadau Cyllido ar gyfer Ysgolion newydd | | |

# TREFNIADAU CYLLIDO AR GYFER YSGOLION NEWYDD

## 1. Rhagarweiniad

**1.1** Mae'r Awdurdod rhan o'r ffordd drwy Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer Ysgolion Band A.

**1.2** Cymeradwywyd yr Achosion Busnes Llawn ar gyfer Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd Y Llan ar 20 Gorffennaf 2015 a 30 Tachwedd, 2015 yn y drefn honno.

**1.3** Mae'r Achosion Busnes Llawn uchod wedi arwain at gau chwe Ysgol Gynradd o fis Awst 2017, gyda'r disgyblion yn cael eu trosglwyddo i'r ddwy ysgol newydd o ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi 2017.

**1.4** Nid yw'r Polisi Ariannu Teg wedi newid ers nifer o flynyddoedd. Mae angen adolygu'r polisi i sicrhau ei fod yn addas i'r diben, yn enwedig ar gyfer trefniadau fel yr uchod.

**1.5** Yn y misoedd diwethaf, bu trafodaethau rhwng y Gwasanaethau Addysg a Swyddogaeth Adnoddau ynghylch y trefniadau ariannu ar gyfer ysgolion sy'n cau ac ysgolion newydd. Mae'r prif bwyntiau i'w hystyried wedi eu crynhoi isod.

## 2. Ariannu Ysgolion

**2.1** Mae pob ysgol yn derbyn ei dyraniad cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol ar sail y Fformiwla Ariannu Ysgolion. Mae'r fformiwla ariannu'n seiliedig i raddau helaeth iawn ar niferoedd y disgyblion ar gofrestr yr ysgol yn y mis Medi blaenorol.

**2.2** Gan nad oes modd rhagweld gyda sicrwydd faint o ddisgyblion fydd yn mynd i'r ysgolion newydd, cynigir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyntaf, h.y. 2017/18 yn achos Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan, ein bod yn cyfrifo beth fyddai'r dyraniad cyllidebol am flwyddyn lawn i'r chwe ysgol gyfredol, a dyrannu 5 / 12 o'r cyfanswm hwn i'r ysgolion hynny (i ariannu'r cyfnod o Ebrill - Awst), a dyrannu 7 / 12 o'r cyfanswm hwn i'r ysgolion newydd (i ariannu'r cyfnod o fis Medi i fis Mawrth). Efallai y bydd angen addasu'r dyraniad ar gyfer llinellau penodol yn y cyllidebau megis costau Ynni, a hynny fel bod mwy o'r arian yn cael ei dargedu tuag at fisoedd y gaeaf.

**2.3** Yn ail flwyddyn ariannol yr ysgol (2018/19), bydd yr arian yn cael ei ddyrannu ar sail y fformiwla ariannu ysgolion (yr un fethodoleg â phob ysgol arall). Gall hyn arwain at newid sylweddol yn nyraniad cyllidol yr ysgolion o flwyddyn 1 i flwyddyn 2. Bydd pob ysgol yn cael gwybod am y gostyngiad posib yn y cyllid ym mlwyddyn 2.

## 3. Costau Ychwanegol

**3.1** Mae sefydlu ysgol newydd yn debygol o arwain at gostau na chyllidebwyd ar eu cyfer yn y 3 blynedd cyntaf. Mae'r costau hyn yn cynnwys: Penodi Pennaeth cyn y dyddiad y mae disgyblion yn cael eu cofrestru yn yr ysgol, costau diogelu cyflog i swyddogion sydd wedi gweld eu cyflogau'n gostwng, a rhai costau gyda'r adeiladau yr ydym wedi eu cau, hyd nes y ceir gwared arnynt.

**3.2** Bydd costau sy'n ymwneud â'r Pennaeth a'r costau sy'n gysylltiedig ag eiddo'n cael eu hariannu gan y Gwasanaeth Addysg (gweler paragraff 4 isod). Gwneir darpariaeth ar gyfer y costau diogelu cyflogau yn y fformiwla cyllido ysgolion (gweler paragraff 5 isod).

## 4. Balansau Ysgolion

**4.1** Mater i ddisgresiwn yr Awdurdod Lleol yw sut i drin balansau pan fo ysgolion yn cau a phan fo ysgol arall newydd yn cael ei sefydlu yn eu lle. Ar hyn o bryd, dywed Polisi Ariannu Teg Ynys Môn:

"Pan fo ysgol yn cau bydd unrhyw falans (gwarged neu ddiffyg) yn dychwelyd i'r AALl; ni fydd yn cael ei drosglwyddo fel balans i unrhyw ysgol arall, hyd yn oed os yw'r ysgol yn olynydd i'r ysgol sy'n cau".

Fodd bynnag, byddai gweithredu'r cymal fel mae'n sefyll ar hyn o bryd yn arwain at sefydlu ysgolion newydd heb fod unrhyw gronfeydd wrth gefn ar gael iddynt pe baent yn wynebu pwysau costau ychwanegol ym mlwyddyn 1. Trafodwyd y mater mewn cyfarfod diweddar o'r Fforwm Cyllid Ysgolion a chytunwyd yn gyffredinol i'r newid y bwriedir ei wneud.

Argymhellir bod y cymal yn cael ei newid i ddweud:

"Pan fydd ysgolion yn cau ac ysgol newydd yn agor yn eu lle fel ysgol olynu, bydd gwarged cyfun yr ysgolion sy'n cau, hyd at y lleiaf o £50,000 (Cynradd) / £100,000 (Uwchradd ac Arbennig) neu 5% o gyfran gyllidebol yr ysgol newydd, yn trosglwyddo i'r ysgol newydd olynol honno. Bydd unrhyw ddiffyg neu warged dros ben y trothwyon hyn yn dychwelyd i'r AALl. Cyfyngir y defnydd o falansau Ysgolion yn y 12 mis cyn y bydd unrhyw ysgol yn cau. Bydd angen cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a'r Swyddog Adran 151 i ddefnyddio balansau ysgol yn y cyfnod o 12 mis cyn cau'r ysgol".

Gall hyn ganiatáu adnoddau ychwanegol i ysgolion newydd, sef adnoddau y gellir eu defnyddio tuag at ariannu unrhyw gostau ychwanegol na chyllidebwyd ar eu cyfer ac a all godi o sefydlu ysgol newydd.

**4.2** Bydd unrhyw falansau ysgolion uwchben y £50,000 neu'r trothwy 5% yn dychwelyd i'r AALl. Cynigir bod y cyllid hwn yn cael ei ailddyrannu i'r Gwasanaeth Addysg Canolog. Bydd y Gwasanaeth Addysg Canolog yn defnyddio'r cyllid hwn i dalu am gostau trosiannol: penodi Pennaeth yn gynnar cyn y dyddiad y mae disgyblion yn cael eu cofrestru i'r Ysgol, costau sy'n gysylltiedig â'r cyfuno ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r eiddo yn yr ysgolion sydd wedi cau.

**4.3** Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd angen gwerthuso sut y mae'r cyllid a ddyrannwyd i'r Gwasanaeth Addysg Canolog yn cymharu â'r costau trosiannol a dalwyd mewn gwirionedd (cost Pennaeth a chostau eiddo). Bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen arian ychwanegol, neu a oes angen crafangu peth arian yn ôl / clustnodi peth arian ar gyfer prosiectau Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn y dyfodol.

## 5. Arbedion Cyllidebol

**5.1** Pan fo ysgolion yn cau ac ysgol newydd yn agor yn eu lle, mae hynny'n debygol o arwain at arbedion refeniw yn y gyllideb a ddirprwywyd i'r ysgol. Bydd unrhyw arbediad refeniw yn cael ei dynnu o'r Gyllideb Ddirprwyedig gyffredinol yn y flwyddyn ar ôl agor yr ysgol newydd.

**5.2** Wrth amcangyfrifo'r arbediad refeniw, bydd y pwysau ychwanegol yn sgil ariannu unrhyw gostau diogelu cyflog yn cael eu hystyried. Wrth ddirprwyo cyllideb i'r ysgol newydd, cynigir y dylid cynnwys costau unrhyw bwysau diogelu cyflogau wrth gyfrifo'r cyflog cyfartalog ar gyfer yr ysgol newydd a bydd hyn yn cynyddu'r cyllid a dderbynnir drwy'r fformiwla ddyrannu. Yna, bydd y costau diogelu cyflog yn cael eu talu gan yr ysgol newydd, er y derbynnir na fydd y costau diogelu cyflog gwirioneddol yn cyfateb yn union i'r swm a ddyrannwyd drwy'r fformiwla.

**5.3** Yn y flwyddyn ariannol ar ôl i'r costau diogelu cyflog ddod i ben, bydd y cyllid hwn hefyd yn cael ei dynnu o'r gyllideb a ddirprwywyd er mwyn dod â lefel yr arbedion yn ôl i'r lefel yn yr achos busnes gwreiddiol.